

# Sut mae Cynghorau Cymuned a Thref yn Cefnogi Tlodi Bwyd?

Un Llais Cymru
One Voice Wales

## Cip cyflym:

**Mae cynghorau cymuned a thref ar draws Cymru wrthi'n cydgysylltu ymdrechion i wrthweithio tlodi bwyd trwy amrywiaeth o fentrau lleol effeithiol:**

**Mae'r ymdrechion hyn yn cyfuno cymorth uniongyrchol â chynaliadwyedd hirdymor, gan ddod â chynghorau, elusennau, cymdeithasau tai, ysgolion a gwirfoddolwyr ynghyd i gyflwyno cymorth ymarferol, meithrin gallu'r gymuned, a lleihau ansicrwydd bwyd ledled Cymru**

### Cyngor Tref Cwmaman Town Council

Mae Cyngor Tref Cwmaman yn cael bwyd wedi'i ailddosbarthu gan Fair Share a hefyd yn gweithio gyda'r Food Share Coop i ddarparu pantri cymunedol.
Codir tâl bach ar bobl i ymaelodi a phrynu'r bwyd; mae modd i'r aelodau brynu bwyd i'w teulu yn wythnosol am bris sefydlog a fforddiadwy.

Ers ei lansio, mae'r Pantri wedi darparu miloedd o barseli bwyd, gan helpu i leihau tlodi bwyd a hyrwyddo urddas wrth gyrchu bwyd.

"Wn i ddim sut baswn i'n ymdopi heb y Pantri – mae'n achubiaeth."

## Heriau

Mae cymunedau ledled Cymru'n wynebu heriau cynyddol o ran tlodi bwyd, yn sgîl costau byw uwch, incwm isel a mynediad cyfyngedig at fwyd maethlon fforddiadwy. Mae llawer o deuluoedd yn gorfod dibynnu ar fanciau bwyd neu gymorth brys, a gwelir bod mynediad at fwyd yn broblem benodol mewn ardaloedd gwledig yn sgîl rhwystrau trafnidiaeth a llai o wasanaethau lleol.

## Atebion

Mae cymunedau yng Nghymru'n ymateb i dlodi bwyd ag ystod o atebion ar lawr gwlad sy'n cyfuno cymorth brys â gwydnwch hirdymor.
Mae cynghorau a grwpiau gwirfoddol yn cydweithio i ariannu prosiectau lleol, gwella rhwydweithiau dosbarthu bwyd, a chefnogi aelwydydd agored i niwed, gan ymdrin â newyn ac ansicrwydd bwyd trwy ddulliau gweithredu mwy cynhwysol wedi'u sbarduno gan y gymuned.

**FBANCIAU BWYD :** Drwy weithio gyda phartneriaid, mae cynghorau cymuned a thref yn cefnogi banciau bwyd trwy gynnig grantiau, rhoddion, mannau cynnal a chynlluniau bwyd am ddim

**OERGELLOEDD CYMUNEDOL A PHANTRÏAU BWYD RHAD:** Drwy oergelloedd a phantrïau cymunedol gall cynghorau feithrin cyd-gefnogaeth mewn cymdogaethau trwy annog trigolion a busnesau i gyfrannu bwyd dros ben i'w ddosbarthu, a lleihau stigma'r banc bwyd trwy gynnig mynediad at fwyd ac eitemau hanfodol i'r cartref.

**CLYBIAU CINIO A DARPARU PRYDAU AM DDIM:** Drwy ddarparu clybiau cinio a phrydau am ddim i bobl hŷn a theuluoedd, mae cynghorau'n cynnig prydau bwyd maethlon a chyswllt cymdeithasol. Mae clybiau gwyliau'n estyn y cymorth hwn i blant a theuluoedd yn ystod gwyliau'r ysgol, gan gynnig prydau bwyd a gweithgareddau strwythuredig llawn hwyl.

**GERDDI CYMUNEDOL:** Mae gerddi cymunedol a phrosiectau tyfu bwyd yn annog bwyta'n iach, cynaliadwyedd a gwydnwch bwyd yn lleol.





Gwyliwch ymweliad Un Llais Cymru â Phantri Cymunedol Cyngor Tref Cwmaman

# Effaith


Mae gan gynghorau cymuned a thref rôl allweddol wrth fynd i'r afael â thlodi bwyd trwy gefnogi prosiectau lleol sy'n sicrhau mynediad at fwyd iach. Drwy gyllido cynlluniau ar lawr gwlad, maen nhw'n bodloni anghenion brys ac yn cefnogi atebion hirdymor. Maen nhw'n gwella mynediad at fwyd, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, yn nodi aelwydydd agored i niwed, yn lleihau unigrwydd ac yn adeiladu cymunedau cryfach a mwy cydnerth.

# Rhagor o Enghreifftiau o Arfer Da

Mumbles Community Council



Prosiect a arweinir gan y gymuned yw Crop Collective **Cyngor Cymuned y Mwmbwls,** sy'n mynd i'r afael â'r cynnydd mewn costau byw trwy helpu preswylwyr i dyfu eu bwyd eu hunain. Nodwyd chwe safle tyfu lle darperir gwelyau uchel mewn partneriaeth â gwirfoddolwyr.
Mae'r cyngor yn cynnig hyfforddiant a chymorth arbenigol i helpu aelwydydd i ddysgu sgiliau tyfu bwyd. Mae modd i wirfoddolwyr llai abl gymryd rhan hefyd trwy dyfu blanhigion gartref ar gyfer y gwelyau cymunedol



**Gwersylloedd Bwyd a Hwyl**

Mae **Cyngor Tref Blaenafon** yn cefnogi llesiant plant trwy weithgareddau chwarae, chwaraeon, cerddoriaeth, coginio a chrefftau gyda brecwast a chinio iach am ddim bob dydd yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae'r Brecwast i'r Teulu bob dydd Gwener yn annog rhieni a'r gymuned i gymryd rhan. Mae'r model syml a chynhwysol hwn yn hybu iechyd, ymgysylltiad a chyswllt.

Cyngor Tref Pen-Bre a Phorth Tywyn
Pembrey and Burry Port Town Council



Bob dydd Gwener yn ystod gwyliau'r haf, mae cynllun Ffrwyth Ffres a fu ar waith gan **Gyngor Tref Pen-bre a Phorth Tywyn** er 2020, yn rhoi bag o 4 o ffrwythau ffres am ddim i bob plentyn sydd wedi cofrestru, ynghyd â gweithgareddau llawn hwyl a ryseitiau.
Mae'r prosiect yn hybu bwyta'n iach, yn helpu teuluoedd sy'n wynebu tlodi bwyd ac yn annog plant i flasu ffrwythau newydd. Yn 2024, derbyniodd 90 o blant 503 o fagiau o ffrwythau dros gyfnod o chwe wythnos.

Welshpool Town Council




Mae **Cyngor Tref y Trallwng** yn cynnal stondin cyfnewid bwyd "Rhoi a Chael" sy'n annog trigolion i rannu cynnyrch dros ben o'u gerddi. Gall pobl leol roi neu gael beth bynnag sydd ei angen—am ddim. Menter syml sy'n lleihau gwastraff bwyd, yn cefnogi rhannu cymunedol ac yn hyrwyddo tyfu bwyd yn lleol.




Mae **Cyngor Tref y Fflint** wedi cydweithio â Can Cook i gynnig mynediad i drigolion at brydau Bwyta'n Dda Gartref, sef bagiau popty pwyll a phecynnau ryseitiau hawdd am bris fforddiadwy.
Busnes cymdeithasol yw Well-Fed a grëwyd gan Gyngor Sir y Fflint, Cymdeithas Dai ClwydAlyn a Can Cook, â'r nod o sicrhau bod pawb yn medru bwyta'n dda, beth bynnag eu hincwm.

HPCC Hirwaun and Penderyn Community Council



Mae **Cyngor Cymuned Hlrwaun a Phenderyn** yn cynnig sesiynau cawl a chymdeithas fel rhan o'u darpariaeth croeso cynnes; caiff y mynychwyr becynnau o lysiau hefyd er mwyn paratoi prydau gartref.
Yn ystod yr Haf buon nhw'n darparu rysáit a'r holl gynhwysion i wneud prydau llysiau maethlon.

# Cyllid & Grymoedd

Mae ar holl gynghorau cymuned Cymru angen pwerau cyfreithiol penodol i'w galluogi i ddarparu amrywiol wasanaethau a chymorth i'w cymuned leol. Mae'r pwerau hyn, a ganiateir trwy ddeddfwriaeth, yn caniatáu i gynghorau ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau a chynlluniau i wella llesiant ac ansawdd bywyd eu trigolion. Mae'r pwerau a'r cyfiawnhad yn gallu amrywio, a dylai cynghorau feddwl am eu hamgylchiadau penodol.

I gael cyngor a chyfarwyddyd, efallai yr hoffai cynghorau gysylltu â'u Swyddog Datblygu Un Llais Cymru. admin@onevoicewales.wales

**Eisiau Gwybod Mwy?**

**Er mwyn cael gwybod mwy am brosiect Argyfwng Costau Byw Un Llais Cymru cysylltwch â'r tîm yn:**

CoLC@onevoicewales.wales    https://bit.ly/3KYHftK    un Llais Cymru